

PWYLLGOR: PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD: 17 IONAWR 2022
TEITL: CYMERADWYO CYLLIDEB 2022/23
PWRPAS: I gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.
ARGYMHELLIAD: CYMERADWYO'R GYLLIDEB
AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymeradwyo Cyllideb 2022/23 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

	Terfynol 2021/22	Addasiad	Chwyddiant	Cyllideb 2022/23
Gweithwyr	£668,020	£122,100*	£19,220	£809,340
Costau teithio a chynhaliaeth	£1,440	£0	£0	£1,440
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£251,580	(£870)	£8,720	£259,430
Gwasanaethau Canolog	£114,490	(£1,830)	£4,510	£117,170
Cyfanswm	£1,035,530	£119,400	£32,450	£1,187,380

* Mae'r addasiad yn cynnwys lefi iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chostau angenrheidiol adnoddau ychwanegol yr uned a gyflwynir mewn adroddiad ar wahân yn y pwyllgor yma.

2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r gyllideb ar gyfer yr uned yma yn cynnwys 18 swydd llawn amser ac 1 swydd rhan amser.

Mae adroddiad wedi ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn er mwyn cynyddu cyflog 6 swydd cymhorthydd pensiynau a chreu 1 swyddog pensiynau ychwanegol a 3 cymhorthydd pensiynau dros dro.

2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r gyllideb yma yn cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a meddalwedd.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau Cyfarwyddwr y Gronfa a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

3. UNED BUDDSODDI

	Terfynol 2021/22	Addasiad	Chwyddiant	Cyllideb 2022/23
Gweithwyr	£111,790	£851*	£3,736	£116,377

* lefi iechyd a gofal cymdeithasol

3.1 Gweithwyr

Mae'r uned yma wedi ei leoli o fewn prif uned Cyllid Canolog felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi ei rhannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (85%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (80%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (60%)

4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

Nid oes cyllideb yn cael ei osod gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blyneddol y Gronfa.

5. ARGYMHELLIAD

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.